
Estyn

Hydref 2022



# Diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru:

## cryfderau sy'n dod i'r amlwg a meysydd i'w hystyried

## Diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru: cryfderau sy'n dod i'r amlwg a meysydd i'w hystyried


Cefndir a chyd-destun.......................................................................................... 1

Monitro cynnydd myfyrwyr dros gyfnod eu rhaglenni.................................................. 3

Paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru ...................................................... 4

Pa mor dda y mae'r rhaglenni'n cyfuno theori ac arfer wrth gysylltu dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion ............................................................................................ 6

Datblygu arfer ymchwil yn y brifysgol ac mewn ysgolion a sut mae hyn yn effeithio ar safonau athrawon dan hyfforddiant ................................................................... 8

Cydarweinyddiaeth y bartneriaeth ......................................................................... 9

Atodiad.................................................................................................................. 11

**Cefndir a chyd-destun**

Ar ôl cyfres o rowndiau asesiadau achredu, mae saith partneriaeth erbyn hyn (sy'n cynnwys prifysgolion a'u hysgolion partner) sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r partneriaethau'n darparu llwybrau israddedig ac ôl-raddedig i addysgu. O fis Medi 2020, daeth dau lwybr newydd ar gael, sef TAR rhan-amser a Llwybr wedi'i seilio ar gyflogaeth, y mae'r ddau ohonynt yn cael eu darparu gan Bartneriaeth y Brifysgol Agored.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid mewn AGA i ddatblygu ein harweiniad arolygu newydd. Cyhoeddwyd Sut rydym ni'n arolygu Addysg Gychwynnol Athrawon a Beth rydym ni'n ei arolygu mewn Addysg Gychwynnol Athrawon ar 1 Medi 2021. Cyhoeddwyd y dogfennau hyn ar ffurf ddrafft i gefnogi ein trefniadau arolygu peilot a chânt eu diweddaru yn ystod haf 2022.

Lluniwyd yr arweiniad arolygu ar gyfer AGA i adlewyrchu trefniadau arolygu Estyn a'r Safonau newydd ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC)[1], ac mae'n cysylltu'n agos â'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru[2]. Mae'r rhaglenni AGA newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2019 yn mynnu:

- rôl fwy i ysgolion
- rôl gliriach i brifysgolion
- cydberchnogaeth o'r rhaglen AGA
- cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion
- rôl ganolog gwaith ymchwil

[1] Safonau proffesiynol – Hwb (llyw.cymru)
[2] meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf (llyw.cymru)

I brofi ein harweiniad arolygu, o fis Hydref 2019, dechreuom gyfres o ‘arbrofion’. Ers hynny, rydym wedi ymweld â phob partneriaeth i brofi ein methodoleg arolygu a sicrhau bod ein dulliau arolygu yn helpu arolygwyr i gasglu tystiolaeth sy’n adlewyrchu diwygio AGA a chefnogi gwelliant yn y sector. I ddechrau, cynhaliwyd ein harbrofion wyneb-yn-wyneb, ond parhaom â’r gwaith hwn yn ystod pandemig COVID-19 trwy ymgysylltu’n rhithiol. Ym mhob un o’r arbrofion, ymunodd Arolygwyr Cymheiriaid â ni sydd wedi’u hyfforddi i arolygu AGA. Roedd yr uwch aelodau staff hyn o ysgolion a phrifysgolion yn hanfodol i’r broses arbrofi. Gwnaethant rannu eu profiadau o ddatblygu’r partneriaethau newydd a chyfrannu at ddatblygu ein dulliau arolygu.

Roedd tri nod i’r arbrofion:

- Sicrhau bod yr arweiniad arolygu newydd yn cynorthwyo i ddatblygu arfer effeithiol yn y sector
- Sicrhau bod yr arweiniad arolygu newydd yn helpu arolygwyr i gasglu tystiolaeth sy’n adlewyrchu diwygio AGA
- Nodi a negyddu unrhyw ‘ganlyniadau anfwriadol’ o’r arweiniad arolygu newydd, cyhyd ag y bo hynny’n bosibl, er mwyn lleihau’r risg o sbarduno ymddygiad di-fudd

I fodloni’r nodau hyn, penderfynom ganolbwyntio ar y newidiadau sylfaenol i AGA. Dewisom bum thema sy’n adlewyrchu gofynion y rhaglenni newydd.

Amcanion yr arbrofion oedd profi gweithgarwch arolygu i gasglu tystiolaeth o’r canlynol:

- monitro cynnydd myfyrwyr dros gyfnod eu rhaglenni
- pa mor dda y mae’r rhaglenni’n paratoi myfyrwyr i addysgu’r Cwricwlwm i Gymru
- pa mor dda y mae’r rhaglenni’n cyfuno theori ac arfer wrth gysylltu dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion
- datblygu arfer ymchwil yn y brifysgol ac mewn ysgolion a sut mae hyn yn effeithio ar safonau athrawon dan hyfforddiant
- cydarweinyddiaeth y rhaglenni rhwng y brifysgol a’i hysgolion partner

Nid gwerthuso partneriaethau unigol oedd diben yr arbrofion, ond profi ein dulliau arolygu. Trwy ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr arbrofion, roeddem hefyd yn gallu ennill dealltwriaeth well o ddatblygiad AGA yng Nghymru a chasglu negeseuon eang am yr esblygiad hwn.

Ar hyd yr arbrofion, cawsom adborth gan y partneriaethau a’n helpodd i fireinio ein harweiniad arolygu. Trwy gynnal yr arbrofion, gwnaethom brofi ein dulliau trwy gasglu tystiolaeth gan y partneriaethau ac roeddem yn gallu rhoi adborth i’r partneriaethau ar ein canfyddiadau. Rhybuddiom bob partneriaeth na fu modd i ni driongli ein tystiolaeth yn drylwyr, ond ein bod yn gallu adrodd ar ‘gryfderau sy’n dod i’r amlwg’ a ‘cwestiynau i’w hystyried’ i gynorthwyo’r bartneriaeth â’i datblygiad parhaus.

Fodd bynnag, at ei gilydd, cododd negeseuon allweddol o’r adborth cronedig. Mae’r adroddiad hwn yn tynnu’r canfyddiadau cyffredinol hyn at ei gilydd.

## Monitro cynnydd myfyrwyr dros gyfnod eu rhaglenni

Mae pob partneriaeth yn datblygu systemau defnyddiol i olrhain cynnydd athrawon dan hyfforddiant a chasglu data. Maent yn casglu gwybodaeth werthfawr am gyflawniad academaidd myfyrwyr a gwerthusiadau o’u cynnydd ar brofiad mewn ysgolion. Mae ychydig o bartneriaethau hefyd yn casglu gwybodaeth am les myfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau, mae arweinwyr yn defnyddio systemau casglu data i ddarparu is-setiau o’r data i graffu ar gynnydd grwpiau gwahanol o fyfyrwyr ac mae hyn yn ddefnyddiol o ran nodi tueddiadau.

At ei gilydd, mae partneriaethau’n defnyddio eu systemau data’n fuddiol i nodi myfyrwyr sy’n cael trafferth. Mewn ychydig o achosion, mae partneriaethau yn defnyddio’r wybodaeth hon i wneud addasiadau i raglenni yn ystod y flwyddyn hefyd i atgyfnerthu dysgu myfyrwyr.

Lle mae partneriaethau wedi casglu crynodeb o ddeilliannau data, mae hyn yn darparu gwaelodlin ddefnyddiol i’r bartneriaeth ddadansoddi tueddiadau dros gyfnod. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae casglu data a gwybodaeth am gynnydd myfyrwyr yn rhy anhylaw ac nid yw partneriaethau wedi ystyried yn ddigon da yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am safonau a chynnydd myfyrwyr i gynllunio’n effeithiol ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, caiff systemau data eu defnyddio fel ystorfa, yn hytrach na dadansoddi’r wybodaeth i nodi patrymau cyflawniad, llywio cynllunio ar gyfer gwella neu i gynnig ffordd effeithiol i’r bartneriaeth fesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol allweddol.



Mae’r rhan fwyaf o bartneriaethau’n casglu tystiolaeth yn erbyn y Safonau SAC i greu trosolwg o gyflawniad myfyrwyr yn eu profiad mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnig darlun cyffredinol defnyddiol o gynnydd myfyrwyr. Fodd bynnag, gan fod y Safonau

wedi'u hysgrifennu fel datganiadau eang sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio mewn ffordd fwy cyfannol, mae mapio cynnydd yn erbyn agweddau penodol ar gynnydd myfyrwyr, fel cynllunio gwersi, yn anodd. Nid yw nodi cynnydd yn erbyn pob safon neu grwpiau o safonau yn unig yn darparu'r wybodaeth fwyaf defnyddiol i nodi patrymau mewn cyflawniad a llywio cynllunio ar gyfer gwella. Mae ychydig o bartneriaethau'n nodi meysydd penodol i'w datblygu yng nghynnydd myfyrwyr, fel medrau dadansoddi beirniadol a medrau ymchwil ac mae hyn yn galluogi arweinwyr i olrhain cynnydd yn fanylach.

Mae pob un o'r partneriaethau'n datblygu systemau electronig defnyddiol i ddod â myfyrdodau myfyrwyr ar eu cynnydd, gwerthusiadau mentoriaid a thiwtoriaid, adborth ar aseiniadau a thystiolaeth arall o gynnydd, fel gwybodaeth archwilio, at ei gilydd. Mae Pasbortau Dysgu Proffesiynol (PDPau) myfyrwyr yn rhan bwysig o'r system hon ac mae partneriaethau'n cydweithio'n gynhyrchiol â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i sicrhau eu bod yn datblygu fersiwn o'r PDP sy'n cefnogi cynnydd myfyrwyr yn dda. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr partneriaethau'n craffu ar yr ystod o wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn y PDPau sy'n dangos cynnydd myfyrwyr er mwyn dod o hyd i batrymau o ran cryfderau, gwendidau, camsyniadau neu wahaniaethau rhwng lleoliadau. Fodd bynnag, mae partneriaethau wrthi'n datblygu systemau effeithlon ac effeithiol o hyd i ddadansoddi'r wybodaeth helaeth hon.

Ar ben hynny, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae gwaith i sicrhau bod pob mentor a thiwtor yn gwerthuso cynnydd myfyrwyr yn gywir ac yn gyson. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y partneriaethau'n gweithio â set gymharol newydd o Safonau ar gyfer SAC (a gyflwynwyd mewn AGA i gyd-fynd â dechrau'r rhaglenni achrededig newydd ym mis Medi 2019). Yn ystod y pandemig, bu ychydig iawn o gyfleoedd i weithio â staff partneriaethau, yn enwedig ar draws ysgolion partneriaethau, i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o sut i asesu cynnydd myfyrwyr yn erbyn y Safonau. O ganlyniad, ni fu gan arweinwyr partneriaethau lwyfan sicr i lunio barnau ar gynnydd myfyrwyr na datblygu dulliau i ddatblygu mentoriaid. Mae llawer o bartneriaethau'n datblygu dulliau i weithio â'r Safonau. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, mae arweinwyr yn archwilio ffyrdd i farnu cynnydd myfyrwyr yn fwy cyfannol. Mae partneriaeth CaBan yn cynnal ymchwil werthfawr ar ddilyniant myfyrwyr i nodi ymddygiad nodweddiadol ar adegau penodol yn ystod datblygiad athrawon newydd. Mae hyn wedi llywio arweiniad y bartneriaeth i fentoriaid ac wedi darparu disgrifwyr defnyddiol ar gyfer cynnydd myfyrwyr.

**Paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru**

Mae pob un o'r rhaglenni AGA yng Nghymru wedi'i dylunio â sail resymegol glir wedi'i seilio ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Maent yn rhoi trosolwg buddiol i fyfyrwyr o'r dirwedd addysgol gyfredol yng Nghymru ac mae pob un o'r myfyrwyr yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o nodweddion allweddol y Cwricwlwm i Gymru. Mae modiwlau ar y rhaglenni a addysgir, tasgau ac aseiniadau yn helpu myfyrwyr i ystyried agweddau fel y pedwar diben, y meysydd dysgu a phrofiad a'r camau cynnydd.

Mae pob partneriaeth yn dechrau manteisio ar ei chryfderau i ategu dealltwriaeth myfyrwyr o agweddau pwysig ar addysgeg ac arfer. Ym Mhartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, caiff myfyrwyr gyfleoedd gwerthfawr i archwilio cyd-destun diwylliannol Cymru a datblygu eu medrau iaith drwy gysylltiadau cryf ag Academi Hywel Teifi. Mae CaBan yn elwa o'i phartneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol trwy

fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a ddarperir gan y rhanbarth. Mae staff mewn ychydig o bartneriaethau wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru ac wedi cyfrannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gynllunio a darparu rhaglenni AGA. Ar ben hynny, mae partneriaethau'n ymwneud yn fwyfwy ag ymchwil i ategu datblygu'r cwricwlwm, er enghraifft fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE).

Mae ychydig o bartneriaethau wedi archwilio gwaith trawsgyfnod â'u myfyrwyr i wella eu dealltwriaeth o elfennau sylfaenol y cwricwlwm, fel y themâu trawsgwricwlaidd. Mae athrawon cynradd ac uwchradd dan hyfforddiant sy'n gweithio mewn grwpiau cymysg yn dysgu oddi wrth brofiadau ei gilydd ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i archwilio dulliau addysgu amrywiol. Yn ogystal, mae staff AGA mewn llawer o'r SAUau yn gweithio ar draws rhaglenni cynradd ac uwchradd ac mae hyn yn helpu i greu cysylltiadau gwerthfawr ar draws modiwlau sy'n helpu myfyrwyr i ddeall egwyddor cwricwlwm unedig. Mae pob partneriaeth yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio cynllunio ar gyfer y medrau trawsgwricwlaidd. Ym Mhartneriaeth Prifysgol De Cymru, cryfder penodol yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau addysgeg ddigidol myfyrwyr ac mae addysgu a dysgu digidol wedi'u hintegreiddio ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, mewn ychydig o bartneriaethau, nid oes gan fyfyrwyr ddealltwriaeth ddigon da o gynllunio effeithiol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ar raglenni uwchradd. Mae tueddiad i 'dicio blwch' cynnwys llythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwersi, yn hytrach na datblygu dealltwriaeth o ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

Mewn ychydig o bartneriaethau, mae myfyrwyr yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylunio a datblygu cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth y Brifysgol Agored, mae myfyrwyr yn ymchwilio i gwricwla rhyngwladol ac yn cymharu'r rhain â'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw myfyrwyr yn ennill dealltwriaeth ddigon da o fodelau'r cwricwlwm na hanfodion cynllunio ar draws cyfnodau a phynciau.

Er bod partneriaethau wedi darparu cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio nodweddion y cwricwlwm newydd, maent yn wynebu sawl her wrth baratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae hyn yn rhannol gan y dyluniwyd y rhaglen yng nghamau cynnar datblygiadau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru, felly nid yw pob agwedd yn alinio'n ddigon da â'r sefyllfa genedlaethol gyfredol. Mewn rhai achosion, mae profiadau dysgu myfyrwyr, yn enwedig ar gyrsiau TAR lle mae amser wedi'i gyfyngu gan fyrder y rhaglen, yn rhy ddatgymalog. Mae hyn yn arbennig o wir o ran integreiddio astudiaethau yn y brifysgol a'r ysgol. At ei gilydd, mae cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd wedi'u llesteirio gan gyfyngiadau'r pandemig, o ran cynnydd ysgolion wrth ddatblygu'r cwricwlwm a'r cyfyngiadau a roddwyd ar fyfyrwyr a staff mewn ysgolion. O ganlyniad, mae cysylltiad myfyrwyr â dylunio a chyflwyno cwricwlwm yn effeithiol yn rhy amrywiol ac ni chaiff y theori a'r arfer sy'n tanategu'r cwricwlwm newydd eu hatgyfnerthu'n ddigonol trwy alinio profiadau mewn ysgolion ac yn y brifysgol.

Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi creu rhwystr i bartneriaethau hefyd yn eu camau datblygu allweddol rhag sicrhau bod ysgolion yn y bartneriaeth yn cynnig y profiadau mwyaf effeithiol i athrawon dan hyfforddiant. Mae cyfyngiadau wedi golygu nad yw partneriaethau wedi sicrhau ansawdd profiadau mewn ysgolion yn ddigon trylwyr. Yn

ogystal, ni fu’n bosibl i bartneriaid consortiwm gynnig digon o wybodaeth am ble mae arfer effeithiol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw ysgolion yn y bartneriaeth yn darparu model da o ddatblygu cwricwlwm.

Mae rhai o’r ysgolion hyn mewn amgylchiadau heriol ac yn ymdrin â materion gwella pwysig mewn arweinyddiaeth ac addysgu. Yn yr ysgolion hyn, nid yw myfyrwyr yn cael digon o gyfleoedd i arsylwi arfer dda mewn cynllunio ac addysgu, nac i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu’r cwricwlwm newydd.

Un o ganlyniadau eraill dyluniad cynnar y rhaglenni ar linell amser datblygu’r cwricwlwm yw bod camsyniadau o hyd ynghylch dylunio a chyflwyno’r cwricwlwm yn y rhannau o’r rhaglenni sydd wedi’u seilio mewn ysgolion a phrifysgolion. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at ddiffyg ffocws ar addysgegau ar gyfer pwnc neu gyfnod penodol, rhagdybiaethau yn ymwneud â dylunio’r cwricwlwm (er enghraifft y bydd yr holl addysgu’n digwydd yn thematig) neu syniadau camarweiniol ynglŷn â chynllunio gwersi (er enghraifft, manylu ar ba rai o’r pedwar diben sydd i’w cyflawni neu nodi’r camau cynnydd a fydd yn cael eu cwmpasu mewn gwers). Mae partneriaethau wedi elwa ar gydweithio ag ysgolion sydd â hanes cryf o ran diwygio’r cwricwlwm.

Fodd bynnag, mewn rhai partneriaeth, caiff cynllunio rhaglenni ei danategu gan ragdybiaeth bod gan naill ai’r brifysgol neu’r ysgol arbenigedd mewn dylunio a chyflwyno cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw partneriaid yn cydweithio’n ddigon agos â’i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth glir o beth yw arfer effeithiol. Ar ben hynny, nid yw partneriaethau wedi ymgysylltu’n ddigon rheolaidd â dysgu proffesiynol a ddarparwyd gan y consortia ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.



**Pa mor dda y mae’r rhaglenni’n cyfuno theori ac arfer wrth gysylltu dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion**

Ym mhob partneriaeth, mae ysgolion arweiniol yn cydweithio’n effeithiol â’u prifysgolion partner i ddatblygu’r rhaglenni AGA ar y cyd. Dyluniont y rhaglenni o’r man cychwyn, sef canolbwyntio ar eu rolau cyflenwol, gan ystyried sut y gallai ysgolion a’r brifysgol

fanteisio ar eu harfer orau. Roedd y cydweithio hwn yn golygu bod cyfuniad o theori ac arfer ar ddechrau pob rhaglen. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae'r berthynas waith agos hon wedi parhau i gynnal y ffocws hwn.

Yn anffodus, roedd cyfyngiadau'r pandemig yn golygu y bu raid i bartneriaethau ailystyried amseriad cynnwys a chyflwyniad rhaglenni. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch mynediad myfyrwyr at ysgolion, ail-ddyluniodd yr holl bartneriaethau eu rhaglenni i'w 'blaenlwytho' ag astudiaethau academaidd a damcaniaethol.

Ym mhob partneriaeth, mae'r ysgolion arweiniol yn chwarae rhan bwysig mewn cysylltu theori ag arfer. Hyd yn oed pan ddaeth ymgynnull grwpiau o fyfyrwyr mewn ysgol yn anniogel, addasodd ysgolion arweiniol eu dulliau cyflwyno i ddarparu sesiynau ar-lein i fyfyrwyr. Mae'r ysgolion hyn, trwy'r sesiynau a addysgir dan arweiniad yr ysgol, yn datblygu eu harfer yn dda ac mae staff mewn ysgolion yn dechrau ailgysyniadoli eu rôl fel addysgwyr athrawon. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynnwys rhaglenni yn alinio'n dda i sicrhau bod y sesiynau dan arweiniad ysgolion yn galluogi myfyrwyr i fyfyrio ar eu sesiynau yn y brifysgol a'u darllen i archwilio agweddau ar addysgeg yn ymarferol yn yr ysgol arweiniol. Mewn rhai ysgolion arweiniol, mae cysylltiad ag AGA yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant dysgu'r ysgol ac mae myfyrwyr a mentoriaid yn siarad am ddysgu ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae dealltwriaeth myfyrwyr o'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn gweithio'n fwyaf effeithiol lle mae cyfathrebu clir rhwng y brifysgol ac ysgolion y bartneriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan ysgolion ddealltwriaeth dda o strwythur y rhaglen gyfan, cynnwys y rhaglen a pha bryd y caiff sylw.

Mae hyn yn golygu y gall staff ysgolion gynorthwyo a herio myfyrwyr i weld y cysylltiadau rhwng ymchwil addysgol ac arfer yn yr ysgol. Mae gan rai partneriaethau strwythurau defnyddiol i hwyluso'r llif gwybodaeth rhwng y brifysgol ac ysgolion. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth Prifysgol De Cymru, mae ysgolion wedi'u trefnu'n 'Gymunedau Dysgu', lle mae un ysgol arweiniol yn cydweithio'n agos â grŵp bach o ysgolion y rhwydwaith. Mae hyn yn galluogi'r grŵp o ysgolion i gynorthwyo myfyrwyr i greu cysylltiadau â dysgu yn y brifysgol, rhannu syniadau ar draws y gymuned a helpu myfyrwyr i gysylltu theori â'u dysgu eu hunain.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn defnyddio eu gwybodaeth am y rhaglen i deilwra adborth i'w myfyrwyr. Maent yn annog myfyrwyr i fyfyrio ar theori addysgol wrth drafod cynnydd yn eu haddysgu â nhw ac yn gwneud cyfeiriadau perthnasol at destunau allweddol wrth roi adborth ysgrifenedig i fyfyrwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan staff yn rhwydwaith ehangach yr ysgolion ddealltwriaeth ddigon da o gynnwys y rhaglen i gynorthwyo myfyrwyr i greu cysylltiadau â theori wrth fyfyrio ar eu haddysgu.

Mae'r diwrnodau dan arweiniad ysgolion yn gweithio orau pan ddaw myfyrwyr i'r sesiynau wedi'u paratoi'n dda ar ôl cwblhau tasgau a gweithgareddau darllen sy'n eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu dysgu.

Mae llawer o bartneriaethau wedi dylunio ystod ddefnyddiol o dasgau asesu i fyfyrwyr sy'n eu helpu i greu'r cysylltiadau rhwng theori a'u profiadau yn yr ysgol.

Mae myfyrwyr o'r farn bod tasgau ymholi, lle mae'n ofynnol iddynt fyfyrio ar dystiolaeth maent wedi'i chasglu yn yr ysgol yng ngoleuni deunyddiau darllen perthnasol, yn fwyaf

effeithiol o ran datblygu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae mwyafrif y myfyrwyr yn ystyried eu haseiniadau academaidd yn angenrheidiol i lwyddo yn y rhaglen o hyd, yn hytrach nag yn ffordd i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o addysgu. Mewn rhai achosion, mae hyn oherwydd nad yw'r bartneriaeth yn ystyried amseriad na natur aseiniadau yn ddigon da i helpu myfyrwyr i greu'r cysylltiad rhwng theori ac arfer.

**Datblygu arfer ymchwil yn y brifysgol ac mewn ysgolion a sut mae hyn yn effeithio ar safonau athrawon dan hyfforddiant**

Mae gan bob partneriaeth strategaeth glir i ddatblygu ymchwil ac ymholiad ar draws y bartneriaeth. Mae ganddynt nodau priodol i sicrhau bod y bartneriaeth yn meithrin gallu ymchwil y brifysgol o ran AGA, yn cynorthwyo ysgolion partner i ddatblygu eu medrau ymchwil ac yn hyrwyddo ymgysylltiad athrawon dan hyfforddiant â darllen ehangach ac ymholiad proffesiynol. Mae ganddynt grŵp neu ffrwd waith strategol sy'n ymwneud â datblygu ymchwil ar draws y bartneriaeth. Mae'r gwaith hwn yn helpu i feithrin diwylliant ymchwil ffyniannus o fewn partneriaethau ac ar draws AGA yng Nghymru. Mae ychydig o bartneriaethau'n cydweithio'n fuddiol â phartneriaid eraill ac yn dechrau cael effaith ar arfer ymholi ar draws y bartneriaeth. Er enghraifft, mae Partneriaeth CaBan yn dechrau gweithio'n gynhyrchiol â Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith Prifysgol Bangor (sy'n cynnwys y consortiwm rhanbarthol) i wneud cyfraniad cadarnhaol i ddiwylliant ymchwil ysgolion y bartneriaeth. Mae ychydig o bartneriaethau'n datblygu ffyrdd y gallai staff y brifysgol gydweithio ag ysgolion i hyrwyddo a chefnogi gweithgarwch ysgolheigaidd. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth Aberystwyth, mae tiwtoriaid yn cefnogi gweithgarwch ymchwil mewn tua hanner o ysgolion y bartneriaeth, gan weithio ar brosiectau penodol fel gwaith i ddatblygu medrau llefaredd disgyblion.

Mae'r partneriaethau'n cymryd rhan yn gynyddol mewn gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol, gan godi proffil AGA yng Nghymru mewn ymgysylltu ag ymchwil. Mae hyn hefyd yn galluogi staff i gydweithio ag ysgolion a phrifysgolion y tu hwnt i'r bartneriaeth i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion addysgol cyfredol.

Mae staff prifysgolion mewn rhai partneriaethau hefyd yn ymchwilio i'w darpariaeth AGA eu hunain, fel astudiaethau carfan ac ymholiad i effeithiolrwydd agweddau ar arfer. Mae'r ymchwil hon yn dechrau llywio datblygiad y rhaglenni'n werthfawr.

Mae llawer o brifysgolion wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adeiladu ar fedrau ymchwil staff, gan gynnwys cymorth i ennill cymwysterau doethurol. Mae llawer o bartneriaethau'n galluogi staff AGA ysgolion i ymgymryd â chymwysterau mentora, y mae rhai ohonynt ar lefel gradd Meistr. Mewn ychydig o bartneriaethau, mae staff ysgolion yn ymgymryd â rôl sydd wedi'i llunio'n benodol i gefnogi ymchwil ac ymholiad. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth Caerdydd, mae gan bob ysgol arweiniol 'Hyrwyddwr Ymchwil'. Mae'r hyrwyddwyr, sydd wedi'u hyfforddi mewn dulliau ymchwil, yn cynorthwyo myfyrwyr i ymgysylltu ag ymchwil i ddatblygu eu haddysgeg. Maent yn hwyluso cyfleoedd i fyfyrwyr gydweithio a chynnal ymholiadau i'w helpu i gysylltu eu hymchwil â chyd-destunau go iawn, fel blaenoriaethau o gynllun gwella'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cynorthwyo myfyrwyr yn fwy buddiol i ddatblygu eu medrau ymchwil. Ar draws partneriaethau, mae ymagwedd fwy strwythuredig tuag at ddatblygu ymchwil myfyrwyr, wedi'i ategu gan ddealltwriaeth ehangach o arfer ymchwil a hyrwyddo ymchwil gyfredol yn gadarnach. Mae ychydig o

diwtoriaid a mentoriaid yn dechrau defnyddio eu hymchwil eu hunain i lywio eu haddysgu a, lle mae hyn yn digwydd, mae myfyrwyr yn elwa’n werthfawr ar yr ymgysylltiad hwn â syniadau newydd ac ar amgyffred ymchwil ac ymholiad fel rhan o ddysgu proffesiynol gydol oes.

Mae’r gwaith hwn yn cynrychioli ‘newid diwylliannol’ mewn AGA yng Nghymru ac mae eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar arfer mewn prifysgolion ac ysgolion.

**Cydarweinyddiaeth y bartneriaeth**

Mae’r holl bartneriaethau’n dangos ymrwymiad i gydweithio ac maent wedi’u seilio ar awydd dilys i gydweithio i gynorthwyo i ddiwygio AGA yng Nghymru. Daeth partneriaid at ei gilydd i ddechrau i ddatblygu gweledigaeth, strwythurau a chynnwys y rhaglenni newydd ar y cyd ac mae perthnasoedd gwaith rhwng partneriaid yn aeddfedu wrth i’r ddarpariaeth ddatblygu. Mae ysgolion arweiniol wedi dangos ymrwymiad sylweddol i’r bartneriaeth. Maent yn dangos ymdeimlad o ddiben a pherchenogaeth o’u rôl o ran datblygu athrawon y dyfodol.



Mae gan bob un o’r partneriaethau strwythurau arweinyddiaeth clir. Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth wedi’i threfnu’n dair lefel, gyda bwrdd strategol yn arwain y bartneriaeth, grŵp rheoli yn gweithio islaw’r bwrdd a sawl is-grŵp sy’n arwain gwaith mewn meysydd penodol â blaenoriaeth. Mae pob un o’r partneriaethau wedi ystyried aelodaeth pob grŵp arweinyddiaeth yn ofalus fel bod cynrychiolaeth briodol o bob un o’r partneriaid.

Mae partneriaethau’n dechrau datblygu llinellau atebolrwydd trwy’r strwythurau arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw rolau a chyfrifoldebau’n glir. Yn gyffredinol, mae gan yr is-grwpiau gylch gorchwyl priodol ac

maent yn cynyddu gallu'r bartneriaeth i lywio gwaith mewn meysydd pwysig, fel lles ac ymchwil. Fodd bynnag, nid yw gwaith yr is-grwpiau hyn yn defnyddio ystod ddigonol o dystiolaeth i gyfeirio eu gwaith yn ddigon manwl. Ar ben hynny, mewn ychydig o bartneriaethau, nid oes digon o bwyslais ar ddatblygu profiadau dysgu myfyrwyr.

Mae prosesau hunanwerthuso yn dueddol o gael eu harwain gan y brifysgol bartner. Mae cynrychiolwyr ysgolion yn dechrau datblygu eu rôl ar grwpiau arweinyddiaeth i archwilio canfyddiadau hunanwerthuso a nodi camau ar gyfer gwella, ond dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae gan bob un o'r partneriaethau galendr addas o weithgareddau hunanwerthuso a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar ansawdd y rhaglen a deilliannau myfyrwyr. Maent yn casglu data a gwybodaeth addas i helpu'r bartneriaeth i ystyried ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae llais y myfyriwr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith hwn o gasglu tystiolaeth. Er bod hyn yn creu llawer o wybodaeth ddefnyddiol, yn gyffredinol, nid yw partneriaethau'n triongli'r wybodaeth hon â thystiolaeth arall yn ddigon da.

At ei gilydd, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon miniog, yn enwedig o ran nodi'n ddigon penodol beth sydd angen ei wella mewn addysgu a phrofiadau dysgu. Nid ydynt yn cyfrif am yr ystod lawn o waith y bartneriaeth mewn ysgolion ac yn y brifysgol.

## Atodiad: Cwestiynau i'w hystyried

### Monitro cynnydd myfyrwyr dros gyfnod eu rhaglenni

- Sut gallwn ni fod yn siŵr ynghylch cadernid y data rydym yn ei gasglu?
- Sut gallwn ni sicrhau bod pob mentor a thiwtor yn barnu cynnydd myfyrwyr yn deg ac yn gywir?
- Sut gallwn ni wneud yn siŵr ein bod yn casglu data yn effeithlon ac yn effeithiol (a ydym yn casglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth sy'n rhy eang i fod yn ddefnyddiol)?
- Sut gallwn ni gasglu data sy'n dweud wrthym am gynnydd myfyrwyr yn yr agweddau pwysicaf ar eu datblygiad yn y ffordd orau?
- Sut gallwn ni weithio'n fwyaf effeithiol â'r Safonau ar gyfer SAC i gefnogi cynnydd myfyrwyr a darparu gwybodaeth i wella ein darpariaeth?
- A ydym yn dadansoddi'r data a'r wybodaeth rydym yn eu casglu'n ddigonol i amlygu negeseuon pwysig am gynnydd myfyrwyr a darpariaeth?
- A yw'r data a'r wybodaeth rydym yn eu casglu yn ein helpu i nodi'n ddigon penodol y meysydd i'w gwella mewn addysgu, mentora, cynnwys y rhaglen a chyflwyno'r rhaglen?
- Beth mae'r data a'r wybodaeth rydym yn eu casglu yn ei ddweud wrthym am ba mor dda rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau fel partneriaeth?
- Sut gallwn ni ddefnyddio'r data a'r wybodaeth rydym yn eu casglu yn fwy strategol?

### Pa mor dda y mae'r rhaglenni'n paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru

- Sut gallwn ni helpu myfyrwyr orau i ennill dealltwriaeth dda o ddylunio a datblygu cwricwlwm? Fesul cyfnod a phwnc?
- A oes dealltwriaeth ddigon cyson gryf o'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith staff y brifysgol ac ysgolion?
- Lle mae'r arfer orau mewn agweddau ar baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn ein hysgolion partner?
- Sut gallwn ni gydweithio â phartneriaid yn y consortiwm i gynorthwyo staff a myfyrwyr yn fwy effeithiol?
- Sut gallwn ni sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiadau teg i ennill dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru?
- Sut gallwn ni alinio elfennau o'n rhaglen a addysgir yn fwy effeithiol i ddatblygu profiad myfyrwyr o ofynion y cwricwlwm?
- Sut gallwn ni gyfathrebu orau â'n mentoriaid i sicrhau y gall mentoriaid greu cysylltiadau perthnasol rhwng y rhaglen a addysgir a chynorthwyo myfyrwyr ar

brofiad mewn ysgolion?

- A yw ein myfyrwyr yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu haddysgegau ar gyfer cyfnodau a phynciau penodol?
- Pa mor dda y mae myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth am fedrau trawsgwricwlaidd i wella'r modd y maent yn cynllunio ar gyfer yr agweddau hyn ac yn eu haddysgu? Yn benodol, a oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon dwfn o lythrennedd a rhifedd?
- Pa mor dda y caiff myfyrwyr eu cynorthwyo i ddeall camsyniadau annefnyddiol yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru?

**Pa mor dda y mae'r rhaglenni'n cyfuno theori ac arfer wrth gysylltu dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion**

- A yw'r rhaglen wedi'i strwythuro fel bod myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y ffordd fwyaf defnyddiol i ddatblygu eu haddysgu?
- A oes gan staff ym mhob ysgol ddealltwriaeth ddigon da o ddyluniad a chynnwys y rhaglen i greu cysylltiadau amserol i'w myfyrwyr rhwng theori ac arfer?
- Sut gallwn ni ddylunio aseiniadau a thasgau sy'n helpu myfyrwyr i archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer?
- A yw ein myfyrwyr yn cael digon o gyfleoedd i archwilio theori ac arfer i'w cynorthwyo i ddatblygu eu haddysgegau ar gyfer cyfnodau a phynciau?
- Pa mor dda ydym yn datblygu medrau myfyrwyr i werthuso eu harfer eu hunain?
- A yw myfyrwyr yn cael digon o gyfleoedd i archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer pan maent ar brofiad mewn ysgolion?
- A yw myfyrwyr yn cael cyfleoedd effeithiol i ddefnyddio eu gwybodaeth am addysgu a dysgu effeithiol i werthuso eu haddysgu eu hunain a gwella cynllunio ac arfer?

**Datblygu arfer ymchwil yn y brifysgol ac mewn ysgolion a sut mae hyn yn effeithio ar safonau athrawon dan hyfforddiant**

- Sut gallwn ni gael darlun cyflawn o weithgarwch ymchwil ac ymholiad ar draws y bartneriaeth?
- A yw ein strategaeth ymchwil yn cael ei deall yn glir ar draws y bartneriaeth?
- Sut gallwn ni rannu ein hymchwil i fod o'r budd mwyaf i fyfyrwyr? Y bartneriaeth? Datblygiadau AGA yng Nghymru?
- Pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio dulliau wedi'u llywio gan ymchwil i ddatblygu gwybodaeth bynciol ac addysgegol myfyrwyr? Sut ydym ni'n gwybod hynny?
- Pa mor dda y mae tiwtoriaid, mentoriaid a myfyrwyr yn cydweithio â'i gilydd i

ddatblygu gwybodaeth ymchwil trwy gymunedau ymholi?

- A oes gan holl staff y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o'r ymddygiad a'r tueddiadau ymchwil yr hoffem eu datblygu ymhlith ein myfyrwyr?

**Cydarweinyddiaeth rhwng y brifysgol a'i hysgolion partner**

- A yw ein gweledigaeth yn glir, yn gynhwysfawr, yn cael ei deall yn dda a'i rhannu'n effeithiol? A yw'n llifo trwy'n holl waith?
- A yw'r holl rolau a chyfrifoldebau'n glir? Sut byddwn yn adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol?
- Pa mor ddatblygedig yw ein systemau sicrhau ansawdd? Sut ydym yn dwyn ein gilydd i gyfrif?
- Pa mor finiog, defnyddiol a strategol yw ein prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella? A ydym yn nodi yn union beth sydd angen ei wella ac yn dylunio cynlluniau gweithredu call i fynd i'r afael â'r materion hyn?
- Pa mor ddilys, dibynadwy a chynhwysfawr yw'r wybodaeth sy'n bwydo'r data yn ein system hunanwerthuso? Pa mor dda y mae partneriaid yn triongli ac yn holi'r data hwn?
- A yw'r holl bartneriaid yn cyfrannu at ein prosesau hunanwerthuso?
- Faint mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu at sicrhau bod camau ar gyfer gwella yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn brydlon?